IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2023

Yn bresennol: Cynghorydd Michael (Cadeirydd)

Cynghorwyr Bridgeman a/ac Driscoll

3 : EITHRIO'R CYHOEDD

Barnwyd bod yr eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag ei chyhoeddi am ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod trwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon.

4 : MATERION CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ynghylch gwahaniaethu yn erbyn cwsmer gyda chi cymorth.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn gyrru ar 7 Mai tua 11:30pm ac fe gafodd ei alw gan ddau fonheddwr o ochr arall y ffordd. Fe groeson nhw'r ffordd, mynd i mewn i'r tacsi a dechrau ei ffilmio. Nid oedd yn sylweddoli bod ci cymorth ganddyn nhw felly dwedodd nad oedd yn gallu ei gymryd. Stopiodd y gyrrwr swyddog heddlu ac esbonio'r sefyllfa, ac eglurodd y teithwyr mai ci tywys oedd y ci felly cytunodd i'w cymryd.

Gwyliodd yr Is-bwyllgor fideo o'r digwyddiad a ddarparwyd gan yr achwynydd. Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, eglurodd y gyrrwr nad oedd wedi sylweddoli mai ci cymorth oedd e tan i'r heddlu esbonio hynny ar ôl ychydig funudau. Nid oedd erioed wedi cael ci tywys yn ei dacsi o'r blaen ac nid oedd wedi ei anabod ar y dechrau, ond nid oedd unrhyw broblem ganddo gyda chymryd anifail.

Anerchodd yr achwynydd yr Is-bwyllgor, gan egluro ei fod wedi bod ar ochr arall y ffordd pan alwodd ei bartner ar y tacsi, ac yn aml roedd yn rhaid iddynt wneud hyn oherwydd fel arall ni fyddai tacsis yn eu codi. Ychwanegodd eu bod wedi egluro'r gofyniad i fynd â'r ci cymorth wrth yr heddlu gan nad oedden nhw i'w weld yn gwybod hynny.

Fe ymddiheurodd y gyrrwr am y dryswch a'r anghyfleustra ac awgrymodd fod cael ei recordio wedi gwneud y sefyllfa'n fwy o

straen. Gofynnodd yr achwynydd a oedd y gyrrwr wedi derbyn hyfforddiant ar ei rwymedigaethau cyfreithiol, ac ychwanegodd fod harnais y ci tywys yn dangos yn glir ei fod yn anifail cymorth. Awgrymon nhw, os nad oedd y gyrrwr yn gallu gweld bod ganddyn nhw gi tywys, yna nid oedd yn ffit i yrru tacsi.

PENDERFYNWYD – atal am 4 diwrnod a rhybudd ysgrifenedig

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ynghylch gwahaniaethu yn erbyn cwsmer gyda chi cymorth.

Dywedodd y gyrrwr ei fod newydd ollwng teithiwr a'i fod yn teimlo'n flinedig yn hwyr iawn gyda'r nos, felly nid oedd yn chwilio am daith hir. Fe gurodd yr achwynydd ar ei ffenestr a gofyn am fynd i Sain Dunwyd, ac atebodd fod hynny yn rhy bell i ffwrdd. Pwysleisiodd nad oedd wedi gwrthod mynd â'u ci cymorth ond ei fod wedi blino'n lân ac eisiau mynd adref.

Gofynnodd yr achwynydd pam fod y gyrrwr yn dal i fod ar y rheng os oedd wedi blino'n lân. Eglurodd hefyd ei fod wedi dweud St Donat’s Road wrth y gyrrwr, a oedd yn llawer agosach na Sain Dunwyd. Dechreuodd y mater cyn gynted ag y gwelodd y gyrrwr y ci. Roedd gyrrwr y tacsi y tu ôl iddynt wedi cytuno gyda nhw bod y sefyllfa yn anfoddhaol.

Anerchodd yr achwynydd yr Is-bwyllgor, gan ddweud bod y tri ohonyn nhw wedi mynd at y tacsi gyda'r ci a gofyn am fynd i St Donat’s Road, ar hynny fe wnaeth y gyrrwr gloi'r drws. Ni ddywedodd ei fod wedi blino'n ormodol, dim ond nad oedd am gymryd y pris siwrnai.

Gwyliodd yr Is-bwyllgor fideo o'r digwyddiad a ddarparwyd gan yr achwynydd. Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, eglurodd y gyrrwr ei fod wedi camddeall a bod eu cyrchfan ymhell tu allan i'r dref, a'i fod wedi blino gormod ar gyfer taith hir, ar ôl bod yn gweithio ers 2pm. Eglurodd hefyd mai dim ond am ddau neu dri munud yr oedd wedi bod ar y safle cyn y digwyddiad. Ar ôl iddo beidio â chymryd yr achwynwyr, aeth adref yn syth.

Ychwanegodd y gyrrwr nad oedd unrhyw broblem ganddo gyda mynd â chŵn yn ei dacsi, ar ôl gweithio yn y fasnach am dros ddegawd. Nododd yr aelodau fod y fideo yn dangos y gyrrwr yn dweud 'dim ci' ar ôl cael gwybod mai ci tywys ydoedd. Awgrymodd y gyrrwr nad oedd wedi clywed mai ci tywys ydoedd, a dim ond oherwydd ei flinder a chamddeall eu cyrchfan yr oedd wedi eu gwrthod. Roedd yr achwynydd yn cydnabod bod y gyrrwr wedi blino ond awgrymodd na ddylai fod wedi bod ar y rheng os nad oedd yn fodlon cymryd pris siwrnai.

Ymatebodd y gyrrwr fod y rheng swyddogol yr ochr arall i'r ffordd.

PENDERFYNWYD – Atal am 7 diwrnod a rhybudd ysgrifenedig

(3) Cais 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ynghylch gwahaniaethu yn erbyn cwsmer gyda chi cymorth.

Dwedodd y gyrrwr ei fod wedi cael ei anfon i swydd gan Dragon Taxis ac nad oedd yn gwybod pwy yr oedd yn ei godi. Neidiodd y ci i mewn ar yr un pryd â'r cwsmeriaid, ac nid oedd yn sylweddoli mai anifail cymorth ydoedd felly fe ddwedodd 'dim ci'. Cafodd ei ddal yn annisgwyl ac aeth allan o'i gab, ac ar yr adeg honno fe ddechreuodd y cwsmeriaid ei recordio. Ar ôl iddo fynd allan o'r cab llwyddodd i dawelu a siarad â'r cwsmeriaid, a chytunodd gyda nhw am y gofyniad i fynd â'r ci. Rhoddodd y mesurydd ymlaen a mynd â nhw adref yn ôl y gofyn, ac roedd yn ddrwg ganddo am yr anghyfleustra.

Nododd yr achwynydd nad oedd yn ofynnol iddo hysbysu'r gyrrwr tacsi ymlaen llaw bod ci tywys ganddo, a gofynnodd a fyddai'r pris siwrnai wedi cael ei dderbyn pe bai wedi gwybod hynny. Atebodd y gyrrwr y byddai wedi ei dderbyn, roedd wedi bod yn gyrru am 15 mlynedd ac nad oedd ganddo broblem gyda chymryd anifeiliaid ond roedd yn well ganddo wybod o flaen llaw.

Roedd yr achwynydd yn gwerthfawrogi ymddiheuriad y gyrrwr ond awgrymodd na ddylai fod wedi bod angen egluro'r sefyllfa cyhyd cyn cael ei gludo adref. Roedd hi'n frwydr gyson gyda gyrwyr tacsis yng Nghaerdydd ac yn ddigwyddiad bob dydd y gallai'r cyngor wneud llawer mwy i fynd i'r afael ag ef.

Edrychodd yr Is-bwyllgor ar fideo o'r digwyddiad a ddarparwyd gan yr achwynydd. Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, eglurodd y gyrrwr nad oedd wedi sylweddoli mai ci tywys ydoedd ar y dechrau. Roedd wedi mynd i banig oherwydd y ffordd y daeth y ci i mewn i'r car a chywair lleisiau'r cwsmeriaid.

Awgrymodd yr achwynwyr nad oedden nhw'n teimlo y dylai'r gyrrwr golli ei drwydded, ond bod angen rhywfaint o hyfforddiant arno. Nododd y Cadeirydd fod y gyrrwr eisoes wedi derbyn hyfforddiant anabledd a chydraddoldeb fel rhan o'i gymhwyster BTEC, ac roedd y fideo yn dangos ei fod yn deall y gofynion cyfreithiol.

Ychwanegodd cynrychiolydd y gyrrwr fod safonau uchel y gyrrwr fel arfer wedi syrthio'n fyr o'r nod, a'i fod wedi ymddiheuro am unrhyw dramgwydd a achoswyd a'u sicrhau na fyddai'n digwydd

eto. Roedd y gyrrwr wedi cael ei synnu i ddechrau gan y ci ond roedd yn gwybod ei gyfrifoldebau ac aeth yn ei flaen gyda'r siwrnai yn ôl y gofyn. Ychwanegodd nad oedd y gyrrwr wedi gweithio i Dragon Taxis ers hynny.

PENDERFYNWYD – rhybudd ysgrifenedig

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm.